Y Comisiwn Etholiadol

Sefyllfaoedd a gweithdrefnau

Digwyddiadau hysting

Mae'r ddogfen hon yn rhoi canllaw arfer da ar gyfer digwyddiadau hysting ac yn esbonio'r rheolau sylfaenol y bydd angen i chi eu dilyn, efallai.

Cynnwys:

Cyflwyniad i hystingau

Pa reolau sy'n berthnasol

Cynnal digwyddiadau hysting

Ymgeiswyr sy'n cymryd rhan mewn digwyddiadau hysting

Termau ac ymadroddion a ddefnyddir gennym

Rydym yn defnyddio '**rhaid**' pan fyddwn yn cyfeirio at ofyn cyfreithiol neu reoleiddiol penodol. Rydym yn defnyddio '**dylech**' ar gyfer eitemau yr ydym yn ystyried eu bod yn arfer da, ond nad ydynt yn ofynion cyfreithiol.

Nid oes raid i chi ddilyn y cyfarwyddyd hwn, ond os gwnewch hynny, byddwch, fel arfer, yn gwneud digon i gydymffurfio â'r gyfraith.

Ein hymagwedd at orfodi

Os na fyddwch yn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol neu reoleiddiol fe allwch chi a'ch sefydliad fod yn ddarostyngedig i gosbau sifil neu droseddol. Gallwch gael rhagor o wybodaeth am ymagwedd y Comisiwn at orfodi yn www.electoralcommission.org.uk/party-finance/enforcement.

Digwyddiadau hysting

Ar gyfer pwy mae'r ddogfen hon:

Trefnwyr hystingau ac ymgeiswyr a phleidiau sy'n cymryd rhan mewn digwyddiadau hysting.

Mae'r ddogfen yn trafod:

- Cyflwyniad i ddigwyddiadau hysting
- Beth yw digwyddiad hysting
- Pwy sy'n cynnal digwyddiadau hysting
- Pa reolau sy'n berthnasol
- Cynnal digwyddiadau hysting
- Ymgeiswyr sy'n cymryd rhan mewn digwyddiadau hysting

Cyfarwyddyd cysylltiedig:

- Cyfarwyddyd i ymgyrchwyr di-blaid
- Cyfarwyddyd i ymgeiswyr ac asiantau
- Cyfarwyddyd gwariant ymgyrch plaid i bleidiau gwleidyddol

2

Crynodeb

Os ydych chi'n meddwl am gynnal neu fynychu digwyddiad hysting, bydd raid i chi ddilyn rhai rheolau.

Mae'r ddogfen hon yn esbonio digwyddiadau hysting, yn cynnig canllaw arfer da ac yn rhoi'r rheolau sylfaenol y bydd angen i chi eu dilyn.

Os hoffech gael help neu gyngor ar unrhyw adeg, ffoniwch ni. Rydym yma i'ch helpu chi.

Cyflwyniad

Dylai etholiadau gael eu cynnal mewn modd sy'n ennyn hyder y cyhoedd. Ac mae llwyddiant etholiad yn dibynnu ar weld yr ymgyrchwyr yn cymryd rhan weithredol. Mae pleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr yn hanfodol i ddemocratiaeth iach ac rydym yn annog pawb i gymryd rhan.

Dylai digwyddiadau hysting fod yn agored a thryloyw a chynnig cyfle i bleidleiswyr glywed barn ymgeiswyr neu bleidiau.

Os ydych chi'n ystyried cynnal digwyddiad hysting neu eich bod yn ymgeisydd sy'n mynychu digwyddiad hysting, efallai y bydd angen i chi ddilyn rhai rheolau.

Mae'r cyfarwyddyd hwn yn esbonio digwyddiadau hysting, yn cynnig canllaw arfer da ac yn rhoi'r rheolau sylfaenol y bydd angen i chi eu dilyn, efallai.

Beth yw digwyddiad hysting?

Cyfarfod lle bydd ymgeiswyr mewn etholiad neu bleidiau yn trafod polisïau ac yn ateb cwestiynau gan y gynulleidfa yw digwyddiad hysting.

Pwy sy'n cynnal digwyddiadau hysting?

Fel arfer mae digwyddiadau hysting yn cael eu cynnal gan sefydliadau, fel grwpiau cymunedol neu ymgyrchwyr, er mwyn i bleidleiswyr gael holi ymgeiswyr am y materion sy'n bwysig iddyn nhw.

4

Pam bod yna reolau am ddigwyddiadau hysting?

Efallai ei bod yn ymddangos yn rhyfedd y gall digwyddiadau hysting gyfrif fel gwariant ymgeisydd neu blaid.

Ni fydd y rheolau hyn yn effeithio ar lawer o ddigwyddiadau hysting, ac mae'r cyfarwyddyd hwn yn esbonio beth allwch chi ei wneud i wneud yn siŵr nad ydynt yn effeithio ar eich digwyddiad chi.

Ond, mae'n bosibl i ddigwyddiadau hysting gael eu rhedeg mewn ffordd sy'n hyrwyddo ymgeisydd neu blaid arbennig, neu sy'n creu anfantais i eraill. Er enghraifft, os byddwch yn gwahodd ymgeiswyr oherwydd bod ganddynt farn benodol, neu'n gwrthwynebu barn benodol.

Er mwyn gwneud yn siŵr bod ariannu etholiadau a gwariant yn deg a thryloyw, mae'n bwysig i ddigwyddiadau o'r fath gael eu trin yn y modd cywir.

Pa reolau all fod yn berthnasol?

Mae cyfyngiad gwariant plaid neu ymgeisydd ar ymgyrchu yn cynnwys gwariant ar ddigwyddiadau cyhoeddus:

- y mae'r ymgeisydd neu blaid yn eu mynychu neu yn eu caniatáu; ac
- sy'n hyrwyddo eu llwyddiant etholiadol

Mae'r cyfyngiadau gwariant yn berthnasol ar gyfer cyfnodau gwahanol mewn etholiadau gwahanol. Gallwch ddarganfod pryd y bydd y cyfnodau yma yn dechrau bob blwyddyn yn ein cyfarwyddyd i bleidiau ac ymgeiswyr. Gallwch weld y cyfarwyddyd hwn yn www.electoralcommission.org.uk/cymru/adnoddau-ir-rheiny-yr-ydym-yn-eu-rheoleiddio.

Pwysig

Mae 'hyrwyddo' yn cynnwys gwneud hynny trwy feirniadu ymgeiswyr neu bleidiau eraill.

Beth mae'n ei olygu os bydd y rheolau yn effeithio ar ddigwyddiad hysting?

Os bydd digwyddiad hysting yn cyfrif tuag at wariant gan un neu fwy o ymgeiswyr neu bleidiau, yna:

- bydd raid i'r ymgeiswyr neu bleidiau dan sylw gyfrif cyfran o gostau'r digwyddiad yn erbyn eu cyfyngiad gwariant, ac
- os bydd y gost yn uwch na lefel benodol (£50 i ymgeiswyr) ac nad yw'n cael ei ad-dalu i drefnwr y digwyddiad, bydd yn rhaid ei gofnodi fel rhodd gan y trefnydd

Pryd na fydd y rheolau'n effeithio ar ddigwyddiadau hysting?

Yn ein barn ni, **ni fydd** y rheolau gwariant yn effeithio ar ddigwyddiadau hysting os:

- Bydd trefnydd digwyddiad hysting lleol wedi gwahodd yr holl ymgeiswyr y gwyddys eu bod yn sefyll yn yr etholaeth;
- Bydd trefnydd digwyddiad hysting cenedlaethol wedi gwahodd yr holl bleidiau sy'n ymgyrchu yn yr etholiad; neu
- Dim ond i aelodau'r sefydliad sy'n cynnal y digwyddiad y bydd y digwyddiad yn agored.

Nid oes raid i'r trefnydd sicrhau bod yr **holl** ymgeiswyr neu bleidiau yn mynychu'r digwyddiad.

Dim ond eu bod yn cael eu gwahodd.

6

Cynnal digwyddiad hysting lleol gydag ymgeiswyr

Os byddwch yn cynnal digwyddiad hysting cyhoeddus yn eich etholaeth, a'ch bod am wneud yn siŵr na fydd y rheolau ar wariant etholiad yn effeithio ar eich digwyddiad, y ffordd fwyaf syml yw gwahodd yr holl ymgeiswyr perthnasol yn yr ardal.

Ond, efallai na fydd hyn yn ymarferol bob amser. Er enghraifft, efallai y bydd cymaint o ymgeiswyr yn sefyll mewn etholaeth fel y byddai cyfarfod yn anodd ei reoli.

Os byddwch yn penderfynu peidio gwahodd yr holl ymgeiswyr, mae rhai argymhellion arfer da y dylech eu dilyn i ddangos nad yw digwyddiad hysting yn hyrwyddo rhai ymgeiswyr yn fwy na'i gilydd.

Argymhellion arfer da

I ddangos nad yw digwyddiad hysting lleol yn hyrwyddo mewn gwirionedd dylech:

- Fedru rhoi rhesymau gwrthrychol pam nad ydych wedi gwahodd ymgeiswyr penodol. A dylech fod yn barod i esbonio eich rhesymau i ymgeiswyr nad ydynt wedi cael eu gwahodd.
- Wneud yn siŵr bod yr ymgeiswyr yr ydych yn eu gwahodd yn cynrychioli amrywiaeth rhesymol o farnau, o wahanol rannau o'r sbectrwm gwleidyddol.
- Fod yn dryloyw yn eich cyhoeddusrwydd ar gyfer y cyfarfod, am bwy sy'n trefnu ac ariannu'r digwyddiad a'r rhesymau pam eich bod yn ei gynnal.
- Yn caniatáu i bob ymgeisydd sy'n bresennol gael cyfle teg i ateb cwestiynau, a phan fydd hynny'n addas, cyfle rhesymol i ymateb i bwyntiau a wneir yn eu herbyn gan ymgeiswyr eraill.
- Hysbysu'r gynulleidfa yn y cyfarfod am ymgeiswyr sy'n sefyll ond nad ydynt wedi cael gwahoddiad.

Gall rhesymau gwrthrychol gynnwys amlygrwydd lleol, y nifer o gynrychiolwyr etholedig yn lleol neu ganlyniadau etholiad diweddar yn yr ardal.

Nid ydynt yn cynnwys rhesymau goddrychol fel eich barn am bolisïau ymgeisydd.

Os na fydd eich digwyddiad yn dilyn ein hargymhellion, efallai y bydd yn hyrwyddo un neu fwy o'r ymgeiswyr. Dylech adael i'r ymgeiswyr neu'u hasiantau wybod ymlaen llaw. Dylech hefyd ddarparu manylion iddynt o gost debygol y digwyddiad.

Os yw'r gost i bob ymgeisydd yn fwy na **£50**, dylai pob ymgeisydd sy'n mynychu gyfrif ei gyfran o'r gost tuag at ei gyfyngiad gwariant.

Bydd y trefnydd hefyd yn cael ei drin fel rhywun sy'n rhoi rhodd i bob un o'r ymgeiswyr hynny. Rhaid i'r rhoddion gael eu cofnodi gan yr ymgeiswyr ar eu ffurflenni gwariant ar ôl yr etholiad.

Os yw eich sefydliad yn elusen, mae'n rhaid i chi ddilyn cyfarwyddyd y Comisiwn Elusennau ar weithgaredd etholiad. Fel arfer byddwch yn torri cyfraith elusennau os byddwch yn rhoi rhodd gwleidyddol.

Gall rheolau fod yn berthnasol hefyd i sefydliadau sy'n derbyn arian cyhoeddus.

Cynnal digwyddiad hysting cenedlaethol gyda phleidiau

Os byddwch yn cynnal digwyddiad hysting cenedlaethol (pan fyddwch yn gwahodd pleidiau yn hytrach nag ymgeiswyr) efallai na fydd yn ymarferol gwahodd yr holl bleidiau sy'n sefyll etholiad.

Mae rhai argymhellion arfer da y dylech eu dilyn i ddangos nad yw digwyddiad hysting yn hyrwyddo pleidiau penodol yn fwy na'i gilydd.

Argymhellion arfer da

Er mwyn dangos bod eich digwyddiad hysting cenedlaethol wirioneddol ddim yn hyrwyddo plaid benodol dylech:

- Fedru rhoi rhesymau gwrthrychol pam nad ydych wedi gwahodd pleidiau penodol. A dylech fod yn barod i esbonio eich rhesymau wrth y pleidiau nad ydych wedi eu gwahodd.
- Wneud yn siŵr bod y pleidiau yr ydych yn eu gwahodd yn cynrychioli amrywiaeth rhesymol o farnau, o wahanol rannau o'r sbectrwm gwleidyddol.
- Fod yn dryloyw yn eich cyhoeddusrwydd i'r cyfarfod, am bwy sy'n trefnu ac ariannu'r digwyddiad a'r rhesymau dros ei gynnal.

Gall rhesymau gwrthrychol gynnwys amlygrwydd cenedlaethol, y nifer o gynrychiolwyr etholedig neu ganlyniadau etholiad diweddar.

Nid ydynt yn cynnwys rhesymau goddrychol fel eich barn am bolisïau ymgeisydd.

- Ganiatáu cyfle teg i bob plaid sy'n mynychu i ateb cwestiynau, a phan fydd hynny'n addas, gyfle rhesymol i ymateb i bwyntiau a wneir yn eu herbyn gan bleidiau eraill.

Os na fydd eich digwyddiad yn dilyn ein hargymhellion, gall fod yn hyrwyddo un neu fwy o bleidiau. Dylech adael i'r pleidiau wybod ymlaen llaw. Dylech hefyd roi manylion iddynt am gost debygol y digwyddiad.

Os yw'r gost i bob plaid yn fwy na **£200**, dylai pob plaid sy'n mynychu gyfrif eu cyfran o'r gost tuag at eu cyfyngiad gwariant.

Os yw'r gost i bob plaid yn fwy na **£500**, mae'r trefnydd yn rhoi rhodd i'r blaid.

Os yw eich sefydliad yn elusen, mae'n rhaid i chi ddilyn cyfarwyddyd y Comisiwn Elusennau ar weithgaredd etholiad. Fel arfer byddwch yn torri cyfraith elusennau os byddwch yn rhoi rhodd gwleidyddol.

Gall rheolau fod yn berthnasol hefyd i sefydliadau sy'n derbyn arian cyhoeddus.

Ymgeiswyr sy'n cymryd rhan mewn digwyddiadau hysting

Os ydych chi'n ymgeisydd sy'n cymryd rhan, neu'n mynychu digwyddiad hysting, efallai y bydd arnoch angen datgan y costau yn eich adroddiad ar wariant ymgyrch a rhoddion.

Os byddwch yn meddwl bod hysting wedi cael ei drefnu mewn modd nad yw'n dilyn ein hargymhellion arfer da, dylech ofyn i'r trefnydd am ragor o wybodaeth fel eich bod yn medru penderfynu a yw'r digwyddiad yn hyrwyddo eich ymgeisyddiaeth mewn gwirionedd.

Os ydyw, yna bydd cyfran addas o gostau'r digwyddiad yn cyfrif tuag at eich treuliau etholiad, ac fel rhodd gan y trefnydd.

Am ragor o wybodaeth gweler y dudalen gyfarwyddyd ar gyfer:

- Ymgeiswyr ac asiantau

Sut gallwn ni helpu

Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth yn y dogfennau cyfarwyddyd yr ydym wedi eu hawgrymu yn y ddogfen hon, neu gallwch weld ein dewis llawn o gyfarwyddyd ac adnoddau cyfredol ar ein gwefan.

Os yw hynny'n haws, gallwch hefyd gysylltu â ni ar un o'r rhifau ffôn neu gyfeiriadau e-bost isod. Rydym yma i'ch helpu, felly cysylltwch â ni.

Ffoniwch ni ar:

- **Lloegr**: 020 7271 0616
  pef@electoralcommission.org.uk
- **Yr Alban**: 0131 225 0200
  infoscotland@electoralcommission.org.uk
- **Cymru**: 029 2034 6800
  infowales@electoralcommission.org.uk
- **Gogledd Iwerddon**: 0289 089 4020
  infonorthernireland@electoralcommission.org.uk

Ewch i'n gwefan yn www.electoralcommission.org.uk

Rydym yn croesawu adborth ar ein cyfarwyddyd – anfonwch e-bost atom yn: pef@electoralcommission.org.uk

10

Cyfieithiadau a fformatau eraill

I gael gwybodaeth ynghylch cael y cyhoeddiad hwn mewn iaith arall, neu ar ffurf fersiwn print bras neu Braille, cysylltwch â'r Comisiwn Etholiadol:

Ffôn: 020 7271 0500

E-bost: publications@electoralcommission.org.uk